

ATODIAD E: POLISI DIOGELU

1. CEFNDIR

- 1.1 Rydym yn ymroddedig i sicrhau amgylchedd diogel i unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â'u haelodaeth gyda YesCymru. Mae rhai o'n haelodau yn blant / pobl ifanc / oedolion bregus, ac er mai'r oedolyn goruchwylio sydd yn gyfrifol am y plentyn neu berson ifanc o dan eu gofal, rydym eisiau darparu amgylchedd sydd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch i blant / pobl ifanc / oedolion bregus tra eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u haelodaeth gyda YesCymru.
- 1.2 Byddwn yn cyfeirio unrhyw faterion diogelu neu amddiffyn plant at y cyrff neu asiantaethau priodol. Yn benodol, os ydyn yn dod ar draws achos sydd yn ymwneud â mater troseddol ynghlwm â phlentyn / person ifanc / oedolyn bregus, byddwn yn cysylltu â'r heddlu.
- 1.3 Dylai y rheini sydd o dan 16 oed gael eu goruchwylio gan oedolyn pan yn mynychu unrhyw weithgareddau (fel digwyddiad, cyfarfod neu brotest) sy'n gysylltiedig â'u haelodaeth o YesCymru
- 1.4 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau YesCymru.

2. EIN POLISI

- 2.1 Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi gwaith Comisiynydd Plant Cymru ac yn credu fel a ganlyn:
 - (i) mae lles a buddiannau plant a phobl ifanc yn holl bwysig;
 - (ii) mae gan ein holl aelodau yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth;
 - (iii) dylai pob honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth gael ei gymryd o ddifrif a dylid ymateb yn briodol yn ddi-oed; a
 - (iv) dylai pob aelod ddeall ystyr ymddygiad priodol a deall bod cyfrifoldeb arnynt i adrodd unrhyw bryderon i cwynion@yes.cymru
- 2.2 Byddwn yn sicrhau'r canlynol:
 - (i) y byddwn yn hybu ac yn blaenoriaethu diogelwch a lles pob plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus waeth beth yw eu hoed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu rywioldeb.
 - (ii) ein bod yn cydnabod fod rhai unigolion yn fwy bregus oherwydd effaith profiadau blaenorol, eu lefel o ddibyniaeth, anghenion cyfathrebu neu broblemau eraill; a
 - (iii) ein bod yn deall ein rôl o ran diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.

3. CYFRIFOLDEBAU

- 3.1 Y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrwyiaeth fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y polisi hwn ac am gymryd camau priodol o dan y polisi.
- 3.2 Mae gan bob aelod gyfrifoldeb am gynnal safonau ymddygiad priodol. Dylai unrhyw bryderon neu amheuon rhesymol o ymddygiad amhriodol gael eu danfon at cwynion@yes.cymru. Bydd unrhyw bryderon o'r fath yn cael eu trin yn gyfrinachol.
- 3.3 Ar ôl derbyn cwyn am bryder o'r fath, bydd disgwyl i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrwyiaeth:

- (i) asesu'r wybodaeth yn brydlon ac yn ofalus, gan ofyn am eglurhad pellach neu ragor o wybodaeth am y mater fel y bo'n briodol;
- (ii) ymgynghori gydag unrhyw gyrff priodol yn y man cyntaf, megis yr adran gwasanaethau cymdeithasol leol, bwrdd iechyd lleol, neu linell gymorth yr NSPCC;
a
- (iii) ble yn briodol, cyfeirio'r mater yn ffurfiol at unrhyw gorff neu asiantaeth priodol, neu'r heddlu.

3.4 Gall unrhyw bryderon a godwyd o dan y polisi hwn hefyd arwain at gamau disgyblu o dan ein Gweithdrefn Disgyblu.